Y rhaglen Space to grow: dysgu a gwerthuso 2024 i 2026

Crynodeb o werthusiad annibynnol gan Dartington Service Design Lab

TACHWEDD 2026

space to grow

Support that helps children flourish

Delivered by The Children's Society

Delivered by CHILDREN FIRST Protecting Scotland's Children

Delivered by MAC'S SUPPORTING CHILDREN & YOUNG PEOPLE

SUPPORTED BY BBC CHILDREN IN NEED

Supported by The Health Foundation

Supported by Impact on Urban Health

space to grow

Support that helps children flourish

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Mae llesiant emosiynol plant a phobl ifanc yn eu harddegau yn parhau i fod yn bryder cynyddol ledled y DU. Mae canfyddiadau diweddar Adroddiad Plentyndod Da 2026 Cymdeithas y Plant yn nodi bod lefelau llesiant yn gostwng, gan atgyfnerthu pwysigrwydd darparu cymorth cyn i anawsterau waethygu.

Mae'r rhaglen **Space to grow** yn darparu cymorth iechyd a llesiant emosiynol am ddim i blant a phobl ifanc 8 i 13 oed mewn ysgolion, cymunedau a lleoliadau lleol eraill y maent yn ymddiried ynddynt. Mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno gan ymarferwyr llesiant emosiynol, ac mae'n cynnig cymorth cynnar ar adeg pan fydd llawer o blant yn wynebu newidiadau sylweddol yn eu haddysg, eu bywydau cymdeithasol a'u datblygiad emosiynol. Wrth iddynt symud i flynyddoedd ffurfiannol yr arddegau, mae'r rhaglen yn helpu plant i ddatblygu hyder, deall eu hemosiynau, a datblygu strategaethau ymdopi cyn bod anawsterau yn gwaethygu. Yn benodol, mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar gyrraedd plant sy'n wynebu rhwystrau systemig i gael mynediad at ddarpariaeth iechyd meddwl. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, llwyddodd y rhaglen i gyrraedd 6,509 o blant (gan gynnwys trwy wasanaethau ysgolion a digwyddiadau codi ymwybyddiaeth). Roedd 1,459 o'r plant hyn wedi derbyn cymorth un i un neu mewn grŵp.

Ariennir **Space to grow** gan Plant Mewn Angen y BBC, The Health Foundation, ac Impact on Urban Health. Cyflwynir y rhaglen ar dri safle ar ddeg yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon gan bartneriaeth rhwng Cymdeithas y Plant, Children First (Yr Alban) a MACS Supporting Children and Young People (Gogledd Iwerddon). Mae'r model hwn rhwng y pedair gwlad yn creu cyfleoedd i rannu dysgu, cryfhau ymarfer, ac ymateb i ddatblygiadau polisi ac ymarfer sy'n dod i'r amlwg ledled y DU.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r hyn a ddysgwyd o werthusiad a gwblhawyd gan Dartington Service Design Lab gan ddefnyddio data o'r rhaglen a data ansoddol a gasglwyd rhwng Hydref 2024 a Mai 2026. Yn ystod y cyfnod gwerthuso, roedd y rhaglen **Space to grow** wedi cefnogi 461 o blant drwy waith un i un neu waith grŵp (roedd cyrhaeddiad ychwanegol gwasanaethau a digwyddiadau codi ymwybyddiaeth y tu allan i gwmpas y gwerthusiad hwn). Defnyddiodd y gwerthusiad ddata ar ganlyniadau, cyfweliadau a gweithdai dysgu gan bartneriaid er mwyn archwilio'r gwahaniaeth roedd y rhaglen wedi'i wneud i blant a phobl ifanc yn eu harddegau, sut y cyflawnwyd hyn, a'r goblygiadau ar gyfer polisi, ymarfer a chyflawni yn y dyfodol.

Prif ganfyddiadau

- **Nododd y plant eu bod yn teimlo'n hapusach, yn fwy hyderus ac yn gallu rheoli emosiynau anodd yn well** ar ôl derbyn cymorth gan y rhaglen **Space to grow**.
- Dywedodd plant eu bod yn teimlo bod ganddynt **fwy o gysylltiad** â chyfoedion, oedolion y gellir ymddiried ynddynt a rhwydweithiau cymorth ehangach, **gan gynyddu eu hyder** i geisio a chynnig cymorth.
- **Roedd dulliau gweithredu creadigol a hyblyg ar sail dewisiadau wedi helpu i wneud y rhaglen yn hygyrch** i blant ag ystod eang o anghenion a phrofiadau.
- **Roedd perthnasoedd dibynadwy yn ganolog** i brofiadau plant o'r gwasanaeth. Nododd y plant yn gyson fod yr ymarferwyr yn allweddol i'w **helpu i deimlo'n ddiogel, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac ymgysylltu** â chymorth.
- Mae gweithio ar dri ar ddeg o safleoedd fel **un bartneriaeth** a datblygu rhwydweithiau lleol cadarn wedi helpu'r rhaglen **i ddiwallu'n well anghenion plant nad oes darpariaeth ddigonol ar eu cyfer**.
- **Mae cyflwyno'r rhaglen ar draws y pedair gwlad** wedi **creu cyfleoedd i fonitro ac ymateb** i ddatblygiadau polisi ac ymarfer.

Goblygiadau allweddol



Mae materion fel sut mae **cymorth yn cael ei fframio, ei brofi a'i gyrchu** yn bwysig



Y math mwyaf effeithiol o gymorth llesiant emosiynol yw cymorth sy'n cael ei ddarparu fel **rhan o system gymorth ehangach**



Mae **amser, ymddiriedaeth a phresenoldeb parhaus** yn allweddol

Space to grow

Support that helps children flourish

Trosolwg o'r rhaglen

Beth yw Space to grow?

Mae **Space to grow** yn darparu cymorth iechyd a llesiant emosiynol yn y gymuned i blant a phobl ifanc 8 i 13 oed. Mae hyn yn cynnwys sesiynau un i un, gwaith grŵp, cymorth i rieni a gofalwyr (gyda chymorth i'r teulu cyfan yn yr Alban), a gweithgareddau cymunedol. Un o nodweddion craidd y rhaglen yw ffocws ar blant a theuluoedd sydd o bosib yn wynebu rhwystrau systemig i gael mynediad at gymorth llesiant emosiynol ac iechyd meddwl, fel gofalwyr ifanc, plant a phobl ifanc LHDTC+, cymunedau mwyafrif byd-eang, a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r rhaglen yn seiliedig ar fodel cymdeithasol o iechyd meddwl, sy'n cydnabod dylanwad ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol a strwythurol ar lesiant emosiynol. Adlewyrchir hyn yn namcaniaeth newid y rhaglen, sy'n amlinellu'r gweithgareddau, y mecanweithiau a'r canlyniadau arfaethedig sy'n sail i'w chyflwyno.



Gweithgareddau dysgu a gwerthuso

Roedd y gweithgareddau dysgu a gwerthuso a lywiodd yr adroddiad hwn yn archwilio tri chwestiwn allweddol:

1. Pa wahaniaeth wnaeth **Space to grow** i blant a theuluoedd?
2. Sut oedd y canlyniadau hyn wedi'u cyflawni?
3. Beth allwn ni ei ddysgu er mwyn llywio ymarfer, comisiynu a pholisi yn y dyfodol?

Er mwyn ateb y cwestiynau hyn, aeth Dartington Service Design Lab ati i gwblhau'r canlynol:

- adolygiad llenyddiaeth cyflym
- chwe gweithdy partner dysgu gyda staff o'r tri phartner cyflwyno'r rhaglen, rhwng Mawrth 2025 a Mawrth 2026
- dadansoddiad meintiol o ddata ar ganlyniadau a oedd yn deillio o Canlyniadau Seiliedig ar Nodau[1], Pebbles (Yr Alban)[2] a Fi a Fy Nheimladau[3], a gasglwyd yn y cyfnod rhwng lansio'r rhaglen (o fis Hydref 2024, gan ddibynnu ar y safle) a mis Ionawr 2026
- dadansoddiad ansoddol o 12 cyfweliad gyda phlant ym mis Ebrill a Mai 2026.



[1] Mae rhagor o fanylion ar gael yma: https://www.corc.uk.net/outcome-measures-guidance/directory-of-outcome-measures/goal-based-outcomes-gbo/

[2] Mae Pebbles yn offeryn canlyniadau a ddatblygwyd gan Children First er mwyn mesur 7 maes allweddol o fywyd plentyn (gan gynnwys llesiant, perthnasoedd a chymuned) ar raddfa 1-5.

[3] Mae rhagor o fanylion ar gael yma: https://www.corc.uk.net/outcome-measures-guidance/directory-of-outcome-measures/goal-based-outcomes-gbo/

Space to grow

Support that helps children flourish

Canfyddiadau: plant a phobl ifanc

Pwy gafodd gymorth gan Space to grow

- Roedd y rhaglen **Space to grow** wedi rhoi cymorth i **461 o blant** trwy waith un i un a gwaith grŵp yn ystod y cyfnod gwerthuso.
- Yr **oedran cyfartalog** oedd **deg mlwydd oed**.
- Dyma'r manylion o ran **rhywedd**:



- Dyma'r manylion o ran **ethnigrwydd**:



Roedd **9.5%** o'r plant yn destun **trefniant plentyn mewn angen, amddiffyn plant neu ofal gan berthynas**.

Roedd gan **13.2%** o'r plant **anabledd** wedi'i gofnodi.

Nododd **4.8%** eu bod yn **ofalwyr ifanc**.

Roedd **nifer yr anghenion** yr oedd plant yn ymgyflwyno â nhw adeg eu hatgyfeirio yn amrywio o.

0 i 11

Cynnydd tuag at y nodau a osodwyd gan blant

Roedd y plant wedi gosod nodau gydag ymarferwyr gan ddefnyddio'r offeryn Canlyniadau Seiliedig ar Nodau, gan olrhain cynnydd ar raddfa o 0 i 10 (roedd data wedi'i baru ar gael ar gyfer 253 o blant). **Roedd y rhan fwyaf o blant wedi gwneud gwelliant sylweddol o ran eu nodau**, o sgôr gymedrig o 5.41 allan o 10 cyn derbyn cymorth, i 6.45 ar ôl derbyn cymorth. Roedd 32.3% o blant wedi cyrraedd lefel o 'newid ystyrlon' trwy sicrhau gwelliant o 2.45 pwynt o leiaf ar ôl derbyn cymorth.[4]



Yn seiliedig ar 253 o blant a phobl ifanc â data wedi'i baru

Roedd plant yn yr Alban wedi defnyddio'r offeryn canlyniadau Pebbles i gofnodi eu nodau. Roedd nodau'r plant hyn ym meysydd perthnasoedd, llesiant a chymuned wedi gwella.

Gwelliannau mewn llesiant a dealltwriaeth emosiynol

Ochr yn ochr â gwelliannau yn y nodau a osodwyd gan y plant eu hunain, canfu'r gwerthusiad **ostyngiadau ystadegol arwyddocaol mewn anawsterau emosiynol ac ymddygiadol (ar gyfer y 76 o blant â data cyflawn)**. Mae hyn yn awgrymu bod llesiant plant wedi gwella'n ehangach trwy gymryd rhan yn y rhaglen **Space to grow** – un o ganlyniadau craidd y ddamcaniaeth newid.

Yn gyffredinol, roedd anawsterau emosiynol ac ymddygiadol (wedi'u mesur gan yr offeryn Fi a Fy Nheimladau) wedi gostwng ymhlith plant a oedd wedi ymwneud â'r gwasanaeth. Roedd y sgoriau ar gyfer anawsterau emosiynol wedi gostwng o gymedr o 7.93 (allan o 20) i 5.24, tra bod y sgoriau ar gyfer anawsterau ymddygiadol wedi gostwng o 4.12 (allan o 12) i 2.71.

[4] Mae 'newid ystyrlon' yn cael ei ddiffinio gan egwyddorion y Mynegai Newid Dibynadwy. Mae hyn yn golygu nad cyd-ddigwyddiad yn unig a oedd yn gyfrifol am gynnydd o 2.45 pwynt o leiaf tuag at nodau a nodwyd gan blant a oedd yn defnyddio'r rhaglen Space to grow. Ar gyfartaledd, roedd cynnydd plant tuag at gyflawni eu nodau wedi gwella'n sylweddol gan 1 pwynt (e.e. o 5 i 6 ar y raddfa), ac roedd y newid hwn yn fwy (2.45 pwynt) ymhlith 32.3% o blant (e.e. o 5 i 7.45 ar gyfartaledd).

Newid mewn sgôr gymedrig



Yn seiliedig ar 76 o blant a phobl ifanc â data wedi'i baru

Rhaid nodi bod rhai plant a ddefnyddiodd y rhaglen wedi ymgyflwyno ag anghenion y tu hwnt i'r rhai a fyddai gysylltiedig â gwasanaeth cymorth cynnar fel arfer. Roedd sgoriau cyn cymorth yn amrywio o 1 i 16 ar gyfer anawsterau emosiynol ac o 0 i 9 ar gyfer anawsterau ymddygiadol, sy'n dangos y gallai rhai plant fod wedi elwa ar gymorth mwy arbenigol (y trothwyon clinigol yw 12 ar gyfer anawsterau emosiynol a 7 ar gyfer anawsterau ymddygiadol). Mae hyn yn dangos bod y system gymorth ehangach o dan bwysau.

Yn ystod y cyfweliadau, disgrifiodd y plant welliannau yn eu llesiant emosiynol a'u dealltwriaeth o deimladau. Hefyd, roeddent yn gallu cofio strategaethau a gyflwynwyd gan eu hymarferydd **Space to grow**, gan gynnwys technegau ymdopi, adnabod oedolion y gellir ymddiried ynddynt a gosod nodau cyraeddadwy. Roedd yr holl strategaethau hyn wedi helpu plant i ddeall bod teimladau yn rhan arferol o fywyd:

> "… os ydw i'n teimlo'n ofnus neu rywbeth, mi wna i geisio anadlu'n ddwfn a chyfrif i lawr i 10. Bydda i'n teimlo'n llai cynhyrfus wedyn, oherwydd dwi'n teimlo'n bryderus yn aml."
>
> "Roedd hi'n dda cael gwybod bod teimlo'n bryderus yn normal ac nad yw pawb yn mynd i deimlo'n hapus drwy'r amser."

Hefyd, cyfeiriodd y plant at deimlo'n fwy hyderus a pharod i reoli heriau ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen **Space to grow**:

> "… Fe wnes i ddechrau dod yn fwy siaradus, gan ddechrau trwy siarad â phobl yn fy ysgol newydd. Mae wedi bod yn wych. Mae'n gwneud i mi deimlo fel person cwbl wahanol ... yn yr ysgol yn bennaf, ond yn gyffredinol hefyd. Nawr dwi'n teimlo'n gyfforddus iawn yn siarad â phobl."

Sut y cyflawnwyd y canlyniadau hyn

Nododd y gweithdai gyda phartneriaid cyflwyno a chyfweliadau gyda phlant a fu'n cymryd rhan yn y rhaglen **Space to grow** sawl nodwedd o'r rhaglen a oedd yn cefnogi ymgysylltiad a chanlyniadau.

Roedd y plant yn disgrifio'r sesiynau fel **pleserus, amrywiol a hygyrch**. Roedd gweithgareddau creadigol, gemau a **chyfleoedd i ddewis** beth roeddent yn ei rannu a sut roeddent ymwneud â'r rhaglen wedi helpu'r plant i gymryd rhan mewn ffyrdd a oedd yn teimlo'n gyfforddus iddynt:

> "… roedd cael yr opsiwn i ddweud na yn bwysig iawn."

Cyfeiriodd y plant yn gyson at **bwysigrwydd perthnasoedd ag ymarferwyr**. Roeddent yn dweud bod yr ymarferwyr yn agos atoch a deallgar, gan ychwanegu eu bod yn gwerthfawrogi oedolion y gellir ymddiried ynddynt a oedd yn gwrando arnynt a'u cefnogi ar eu cyflymder eu hunain:

> "Fe wnaeth hi greu lle cyfforddus lle roeddwn i'n gallu siarad â hi. Llawer o'r amser roedd popeth yn digwydd drwy gemau, ac weithiau bydden ni'n siarad wedyn."

Yn ystod y gweithdai, nododd ymarferwyr a rheolwyr fod y nodweddion canlynol yn sylfaen allweddol i'r broses ymgysylltu:

- Roedd y rhaglen **Space to grow** wedi defnyddio **dull hyblyg sy'n canolbwyntio ar y person cyfan**. Fel rhan o'r dull hwn, roedd ymarferwyr yn addasu gweithgareddau a darpariaeth yn unol ag anghenion, cryfderau ac amgylchiadau unigol y plant.
- Gallai rhwystrau iaith, trawma, stigma diwylliannol, ac anawsterau wrth geisio cael gwasanaethau effeithio ar fynediad at gymorth i blant o grwpiau nad oes darpariaeth ddigonol ar eu cyfer. Roedd timau **Space to grow** wedi datblygu **partneriaethau lleol a dulliau cyflwyno wedi'u teilwra** er mwyn gwella hygyrchedd ac ymgysylltiad.
- Nododd ymarferwyr fod gwasanaethau ysgol, sesiynau ystafell ddosbarth a gwaith grŵp yn **llwybrau trothwy is pwysig ar gyfer cymorth**. Roedd y gweithgareddau hyn yn cyflwyno pynciau llesiant emosiynol mewn lleoliadau cyfarwydd, gan helpu plant i ddod yn gyfarwydd ag ymarferwyr a meithrin ymddiriedaeth cyn derbyn cymorth un i un.

Heriau

Nododd yr ymarferwyr nad yw'r **cynnig chwech i wyth wythnos arferol yn ddigonol bob amser** i feithrin ymddiriedaeth ac ymateb i'r heriau cymhleth a pharhaus sy'n wynebu rhai plant a theuluoedd. Adlewyrchwyd yr her hon ym mhrofiadau'r plant hefyd.

Roedd nifer fach yn ansicr a fyddai pethau'n parhau i wella dros amser:

> "Mae'n cymryd amser i reoli fy nicter, ac mae angen ei brosesu er mwyn gwella. Mae'n dda ar hyn o bryd, ond fyddwn i ddim yn dweud fy mod i'n meddwl y gallai wella."

Hefyd, nododd rhai plant eu bod yn teimlo'n drist pan oedd y cymorth wedi dod i ben, ac mewn rhai achosion, nad oeddent yn gwybod ble i droi am gymorth wedyn:

> "Rydw i wir eisiau mynd eto, ac roeddwn i'n teimlo ychydig yn drist pan nad oedd [enw'r ymarferydd] yn dod eto."

Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod angen cymorth mwy hirdymor ar lawer o blant a theuluoedd na'r hyn y mae gwasanaeth cymorth cynnar yn gallu ei ddarparu ar ei ben ei hun. Hefyd, maent yn nodi **pwysigrwydd cynllunio cyfnodau pontio** yn ofalus lle mae perthnasoedd cadarn wedi'u sefydlu.

Un o'r heriau eraill a nodwyd oedd y ffaith bod ymarferwyr mewn rhai ardaloedd yn gyfrifol am ddarparu cymorth ar draws **ardaloedd daearyddol mawr. Roedd hyn yn cyfyngu ar nifer y plant a theuluoedd y mae modd eu cyrraedd, ac yn lleihau hyblygrwydd** i ymateb i anghenion a galw newidiol.

Canfyddiadau: teuluoedd a chymunedau

Cyrhaeddiad y rhaglen Space to grow

Ni chafodd teuluoedd (rhieni a gofalwyr yn bennaf) na gweithwyr proffesiynol oddi mewn i rwydwaith ehangach **Space to grow** (fel ysgolion, sefydliadau cymunedol a gwasanaethau awdurdodau lleol) eu cyfweld fel rhan o'r gwerthusiad. Felly, mae'r adran hon yn seiliedig ar sylwadau'r plant a'r hyn a nodwyd yn y gweithdai gyda phartneriaid dysgu.

Newidiadau a wnaed ar gyfer teuluoedd a chymunedau

Nododd y plant fod **llai o densiwn yn y cartref a bod effeithiau cadarnhaol ehangach** ar y bobl o'u cwmpas diolch i'r sgiliau roeddent wedi'u datblygu:

> "Dydych chi ddim yn sylweddoli eich bod chi'n lledaenu eich emosiynau a'ch hapusrwydd gyda phobl eraill oherwydd bod y cyfan yn gymaint o hwyl."

Hefyd, nododd yr ymarferwyr fod sesiynau ar y cyd yn cynnwys plant a'u rhieni neu ofalwyr wedi helpu i ddatblygu **dealltwriaeth gyffredin** o anghenion plant ac atgyfnerthu strategaethau ymdopi.

Sut roedd y rhaglen Space to grow wedi creu'r newid hwn

Nododd yr ymarferwyr sawl **ffactor a oedd yn gymorth i ymgysylltu** â theuluoedd, ysgolion a chymunedau:

- Roedd y ffaith fod y rhaglen yn **ffynhonnell gymorth annibynnol nad yw'n glinigol nac yn statudol** wedi helpu'r rhaglen i feithrin ymddiriedaeth gyda theuluoedd a allai fod â phryderon am stigma a chanlyniadau ymddangosiadol ymgysylltu â gwasanaethau statudol.
- Roedd **hyblygrwydd i weithio ar gyflymder plentyn ac addasu cymorth** i amgylchiadau lleol yn helpu i sicrhau ymgysylltiad plant a theuluoedd a allai gael trafferth dod o hyd i gymorth fel arall.

- Yn hytrach na dibynnu ar un llwybr atgyfeirio, roedd **ymgorffori'r rhaglen mewn rhwydweithiau lleol sy'n bodoli eisoes** wedi creu sawl pwynt mynediad ar gyfer cymorth. Roedd ymarferwyr yn gallu ymgysylltu â phlant a theuluoedd trwy ysgolion, sefydliadau cymunedol, a phartneriaid lleol – perthnasoedd lle roedd ymddiriedaeth eisoes wedi'i sefydlu. Roedd hefyd yn helpu i gryfhau ymgysylltiad ag ysgolion a gweithio mewn partneriaeth.
- **Yn aml, roedd perthnasoedd cadarnhaol plant ag ymarferwyr yn gweithredu fel catalydd** ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd yn ehangach.

Heriau

- Dywedodd ymarferwyr fod y **sefyllfa o ran cymorth lleol yn gymhleth**, ac nad yw teuluoedd a gweithwyr proffesiynol bob amser yn gwybod am y gwasanaethau a'r llwybrau atgyfeirio sydd ar gael. O ganlyniad, **roedd llawer o deuluoedd yn gofyn am gymorth gyda materion y tu hwnt i gwmpas arfaethedig y rhaglen**, gan gynnwys llwybrau anghenion addysgol arbennig ac anabledd a llwybrau asesu niwroddatblygiadol.
- Nodwyd bod rhai teuluoedd, aelodau o'r gymuned a gweithwyr proffesiynol yn ansicr ynglŷn ag ymgysylltu â gwasanaethau newydd, gan adlewyrchu **profiadau o fentrau tymor byr eraill**. Felly, nododd yr ymarferwyr fod angen cysondeb, amlygrwydd ac ymgysylltiad parhaus dros amser er mwyn meithrin ymddiriedaeth.
- Disgrifiodd ymarferwyr yr heriau o ran **ymgysylltu â rhai teuluoedd sy'n wynebu rhwystrau lluosog a chroestoriadol i fynediad**. Roedd yr heriau hyn yn cynnwys pwysau economaidd-gymdeithasol, cyfrifoldebau gofalu, mynediad digidol cyfyngedig, a rhwystrau iaith. O ganlyniad, dywedodd ymarferwyr fod angen amser a hyblygrwydd ychwanegol arnynt wrth gynnig cymorth.
- Roedd y gwasanaeth **yn dibynnu ar berthynas ag ysgolion a phartneriaid eraill** er mwyn adnabod plant, ymgysylltu â theuluoedd a darparu cymorth. Dywedodd ymarferwyr y gallai **trosiant staff** ymhlith sefydliadau partner amharu ar berthnasoedd a oedd wedi'u sefydlu, arafu cynnydd, a'i gwneud yn ofynnol iddynt ddatblygu rhwydweithiau a ffyrdd o weithio newydd.



Canfyddiadau: dylanwadu strategol a gwaith polisi

Mae'r adran hon yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o ddau weithdy polisi a dylanwadu gydag ymarferwyr, rheolwyr a chomisiynwyr o bob un o'r pedair gwlad.

Canlyniadau a ddaeth i'r amlwg

Roedd y gwerthusiad wedi canfod tystiolaeth gynnar bod y rhaglen **Space to grow** yn cyfrannu at drafodaethau lleol a chenedlaethol am lesiant emosiynol plant a chymorth cynnar, megis fforymau polisi a datblygiadau gwasanaethau lleol, ac wedi rhoi mwy o lais i blant yn y trafodaethau hyn:

- Roedd MACS Supporting Children and Young People wedi cymryd rhan mewn gweithgor traws-sector ar gyfer cynrychiolwyr addysg, ieuenctid, iechyd meddwl a'r sector gwirfoddol er mwyn datblygu dulliau cynaliadwy o roi cymorth llesiant mewn ysgolion.
- Hefyd, roedd **Space to grow** Coventry wedi cael gwahoddiad gan ymddiriedolaeth GIG leol i rannu'r hyn a ddysgwyd o waith y rhaglen yn darparu cymorth anghlinigol i blant niwrowahanol.

Sut y cyflawnwyd y canlyniadau hyn

Cyfeiriodd cyfranogwyr y gweithdy at ffactorau sy'n cefnogi'r gwaith hwn, gan gynnwys:

- **Cydweithredu** fel un o nodweddion craidd y model **Space to grow.** Trwy gyflwyno'r rhaglen ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, roedd cyfle i ymarferwyr, rheolwyr a phartneriaid cyflenwi **rannu'r hyn a ddysgwyd, nodi heriau trawswladol a chyfnewid arferion effeithiol** yn rheolaidd. Roedd y broses hon wedi helpu i lywio datblygiad y rhaglen a chyfrannu at drafodaethau ehangach ar bolisi ac ymarfer.
- Roedd **perthnasoedd cadarn ag ysgolion, cymunedau a phartneriaid lleol** wedi helpu i greu cyfleoedd i ddylanwadu ar arferion lleol a datblygu gwasanaethau y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau uniongyrchol.

Heriau

Nododd cyfranogwyr yn y gweithdai partneriaid dysgu fod **cyllid tymor byr** yn her benodol, yn enwedig mewn achosion lle roedd dylanwad yn dibynnu ar ddatblygu perthnasoedd hirdymor a chynnal presenoldeb mewn rhwydweithiau lleol a chenedlaethol. Er bod y gwerthusiad yn nodi enghreifftiau o ddylanwad sy'n dod i'r amlwg, ni allai asesu eu heffaith fwy hirdymor.

Adeiladu ar sylfeini canfyddiadau'r gwerthusiad

Ers cwblhau'r gwerthusiad, mae'r rhaglen **Space to grow** wedi cyfrannu at drafodaethau polisi ehangach ar iechyd meddwl plant trwy gyhoeddi Meet Me Where I Am, adroddiad sy'n archwilio rhwystrau i gymorth iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu harddegau nad oes darpariaeth ddigonol ar eu cyfer.[5] Mae'r adroddiad wedi'i ategu gan bedwar briff polisi penodol ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan helpu i gynnwys tystiolaeth leol a phrofiadau plant mewn sgyrsiau cenedlaethol am fynediad at gymorth cynnar.



[5] Mae rhagor o fanylion ar gael yma: https://www.childrenssociety.org.uk/meet-me-where-i-am

Goblygiadau

Mae gan y dysgu a gyflwynir yn yr adroddiad hwn oblygiadau ar gyfer comisiynwyr a chyllidwyr yn benodol, yn ogystal â chyfeiriad y sector yn y dyfodol.

Mae'r ffordd y mae cymorth yn cael ei fframio, ei brofi a'i gyrchu yn bwysig

Un thema a gododd yn rheolaidd yn ystod y gwerthusiad oedd pwysigrwydd sut mae cymorth llesiant emosiynol i blant yn cael ei fframio. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod **dulliau sy'n seiliedig ar chwarae, perthnasoedd a dewis yn gallu helpu i herio rhagdybiaethau bod cymorth llesiant yn faes clinigol** sy'n gysylltiedig ag anawsterau iechyd meddwl mwy difrifol. Gall dulliau o'r fath **leihau rhwystrau i ymgysylltu a gwella hygyrchedd** gwasanaethau cymorth cynnar. Hefyd, mae'r canfyddiadau yn codi cwestiynau ehangach i'r sector plant ynglŷn â sut mae gwybodaeth am gymorth llesiant emosiynol yn cael ei chyfleu i blant a theuluoedd a'i normaleiddio ar eu cyfer.

Mae cymorth llesiant emosiynol yn gweithio orau fel rhan o system gymorth ehangach

Thema gyson arall oedd pwysigrwydd perthnasoedd a chysylltiad. Mae'r rhaglen **Space to grow** yn seiliedig ar y ddealltwriaeth bod llesiant emosiynol plant yn cael ei siapio gan y bobl, yr amgylcheddau a'r systemau o'u cwmpas. Mae'r canfyddiadau yn awgrymu bod egwyddor debyg yn berthnasol i'r broses o ddarparu cymorth. Roedd hi'n ymddangos bod y rhaglen **Space to grow** yn fwyaf effeithiol pan gafodd ei chynnwys mewn rhwydweithiau lleol cadarn, gan weithio ochr yn ochr â theuluoedd, ysgolion, sefydliadau cymunedol a gwasanaethau eraill. **Mae'n ymddangos bod cymorth cynnar effeithiol yn dibynnu nid yn unig ar raglenni unigol ond hefyd ar y rhwydwaith ehangach o gymorth sydd ar gael i blant a theuluoedd**. Felly, efallai y bydd comisiynwyr yn dymuno ystyried sut mae gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd ar draws lefelau gwahanol o angen, gan gynnwys pa gymorth sy'n parhau i fod ar gael pan fydd cymorth sydd â therfyn amser yn dod i ben.

Mae amser, ymddiriedaeth a phresenoldeb parhaus yn allweddol

Dangosodd y gwerthusiad **bwysigrwydd cyllid hirdymor, hyblyg ar gyfer gwasanaethau cymorth cynnar**. Roedd cysylltiad agos rhwng effaith y rhaglen **Space to grow** â meithrin perthynas, ymddiriedaeth ac ymgysylltiad parhaus â phlant, teuluoedd a chymunedau, ac mae angen amser i ddatblygu pob un o'r rhain. Mae'r canfyddiadau yn awgrymu bod **effaith hirdymor yn dibynnu nid yn unig ar y cymorth sy'n cael ei ddarparu i blant ond hefyd ar ei barhad** ac ar y perthnasoedd a'r partneriaethau sy'n gysylltiedig â'r cymorth.

Casgliad

Mae'r gwerthusiad hwn yn awgrymu bod y rhaglen **Space to grow** yn cefnogi newid ystyrlon ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu harddegau, a ddywedodd bod y rhaglen wedi'u helpu i deimlo'n fwy hyderus, deall eu hemosiynau yn well, a datblygu sgiliau i reoli heriau.

Yn bwysicaf oll o bosibl, mae'r canfyddiadau yn awgrymu bod y rhaglen **Space to grow** yn ymateb i angen clir am gymorth cynnar hygyrch, gan helpu plant cyn bod anawsterau'n gwaethygu, a chyrraedd plant nad yw systemau presennol yn diwallu eu hanghenion yn dda bob amser. Trwy nodweddion fel perthnasoedd dibynadwy, darpariaeth hyblyg, a dulliau gweithredu creadigol, anghlinigol, dangoswyd bod y rhaglen **Space to grow** yn ymgysylltu â phlant ag ystod eang o anghenion a phrofiadau.

Gan weithredu ar draws tri safle ar ddeg yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'r rhaglen **Space to grow** wedi dangos gwerth unigryw model partneriaeth pedair gwlad. Mae'r dysgu a'r ddealltwriaeth sydd wedi'u creu mewn cymunedau lleol wedi'u rhannu ar draws y rhaglen, gan alluogi partneriaid i gryfhau ymarfer, nodi heriau cyffredin, a chyfrannu at sgyrsiau ehangach am lesiant emosiynol plant, mynediad at gymorth a chymorth cynnar.

Byddai buddsoddiad parhaus yn galluogi mwy o blant a theuluoedd i elwa ar y cymorth hwn wrth ddatblygu dealltwriaeth o'i effaith fwy hirdymor.

Mae pontio o blentyndod i fyd oedolion yn gallu bod yn anodd. Ond mae'n gyfnod gwirioneddol ffurfiannol.

Mae'n gyfnod a ddylai gael ei ddiffinio gan arbrofi - a dos iach o hwyl.

Ond mae gormod o bobl ifanc yn eu harddegau ym Mhrydain mewn trallod. Maen nhw'n cael eu siomi gan systemau sy'n methu, does ganddyn nhw ddim modelau rôl dibynadwy, maen nhw'n gaeth mewn tlodi, ac maen nhw'n wynebu camdriniaeth, ar-lein ac all-lein. Does dim syndod mai'r rhain yw'r bobl ifanc fwyaf anhapus yn Ewrop.

Dyna pam rydyn ni eisiau sicrhau bod gan bawb yn eu harddegau le diogel i fynd, ac arbenigwyr i siarad â nhw, pryd bynnag y mae angen hynny arnyn nhw. Rydyn ni eisiau agor mwy o ganolfannau galw heibio, darparu cymorth parhaol – a hyrwyddo newid ar y cyd â phobl ifanc yn eu harddegau ac ar eu cyfer.

Mae Cymdeithas y Plant yn credu mewn helpu pobl ifanc yn eu harddegau i ffynnu. Credwn fod pob un ohonynt yn haeddu'r cyfle i fwynhau'r cam gwych ac unigryw hwn o fywyd.

Oherwydd y gwir yw, os ydyn nhw mewn trafferth, rydyn ni i gyd mewn trafferth.

Rydyn ni'n seinio'r larwm i Achub yr Arddegau.

childrenssociety.org.uk

Email: spacetogrow@childrenssociety.org.uk

© Cymdeithas y Plant 2026. Mae hawlfraint yr holl ddeunydd yn y cyhoeddiad hwn yn eiddo i Gymdeithas y Plant. Ni chaniateir ei atgynhyrchu, ei ddyblygu na'i gopïo mew unrhyw fodd heb ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw. Rhif cofrestru elusen 221124.

space to grow

Support that helps children flourish

The Children's Society